Rhif: WAG10-11086

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

# Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu

F6621011
ISBN: 978 0 7504 6034 7
© Hawlfraint y Goron 2011

**Cynnwys** **Tudalen**

**RHAGAIR** 3

**1. Cyflwyniad** 5

**2. Ein Gweledigaeth** 9

- **Adeiladu ar Gryfderau**
- **Ein Hegwyddorion**

**3. Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu** 13

- **Diben Cenedlaethol Grymus, Disgwyliadau ac Atebolrwydd Clir ar gyfer Darparu Gwasanaethau** 13
- **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** 16
- **Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** 17
- **Gwasanaethau Integredig** 19
- **Lleihau Cymhlethdodau** 25
- **Gweithlu Hyderus a Chymwys** 28
- **Diogelu a Hyrwyddo Lles Unigolion** 32
- **Fframwaith Newydd i Gymru ar gyfer Gwella** 34

# FOREWORD



Gwasanaethau cymdeithasol sy'n safonol, sy'n ymateb i anghenion ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – mae'r rhain yn hanfodol i lwyddiant Cymru. Dyna pam ry'n ni'n dweud yn y Papur hwn sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati i symud gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu blaenau a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud yn siŵr bod y newid hwn yn digwydd.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn o sgyrsiau. Bu'r Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Tachwedd 2010, yn siarad â phobl ym mhob cwr o Gymru er mwyn clywed beth yn union roedden nhw'n disgwyl ei gael gan wasanaethau cymdeithasol a pha heriau yr oedden nhw'n eu hwynebu. Fe gawson ni dystiolaeth bwysig hefyd drwy gynnal adolygiadau eraill ar y gweithlu ac ar ddiogelu.

Y newydd da yw ein bod yn adeiladu ar seiliau cadarn. Ond fe wyddon ni hefyd fod yna gyfleoedd a heriau yn ein hwynebu. Wrth i'n cymdeithas newid, felly hefyd y mae'n rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid.  Ry'n ni oll yn disgwyl pethau mwy a phethau newydd oddi wrth y gwasanaethau cyhoeddus.  Mae newidiadau ar droed yn nemograffi Cymru ac mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni yn llawn her.

Ry'n ni'n dal yn llawn uchelgais ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Fe wyddon ni fod pobl Cymru yn awyddus iawn i weithio gyda'i gilydd ac y gallwn ddefnyddio hynny fel sylfaen. Ry'n ni'n credu bod cymorth y gwasanaethau cyhoeddus yn allweddol i ni i gyd pan fo pethau'n anodd.  Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael mwy o lais a mwy o reolaeth dros eu gwasanaethau. Fe fyddwn ni'n symleiddio'r ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu ac yn sicrhau bod yr arbenigedd sydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol. Fe awn ni ati i greu gweithlu

mwy grymus, mwy hyderus yn ei farn broffesiynol ei hun. Ei wneud yn iawn y tro cyntaf: dyna fydd ein blaenoriaeth. Mae’r dyddiau pan allai gwasanaethau cyhoeddus weithio ar eu pen eu hunain wedi hen fynd heibio. Bellach, ry’n ni’n disgwyl i wasanaethau cyhoeddus weithio gyda’i gilydd, lle bo’n briodol, i ddarparu gwasanaethau integredig.

Yr hyn sydd yn y Papur hwn yw ein blaenoriaethau gweithredu. Y cam nesaf fydd cyflwyno rhaglen bolisi a deddfwriaeth i’w rhoi ar waith. Ry’n ni’n edrych ymlaen at weithio gyda chi i wireddu ein huchelgais ac i weld gwasanaethau cymdeithasol ar eu newydd wedd yng Nghymru.

Gwenda Thomas.

Gwenda Thomas AM
Deputy Minister for Social Services

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru a chaiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, er enghraifft gwasanaethau tai, iechyd neu addysg. Y llynedd, cafodd 44,000 o blant a phobl ifanc eu hatgyfeirio ac aseswyd 88,000 o oedolion o ran eu hanghenion. Darparwyd 12 miliwn awr o ofal cartref. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn gofalu am 5,000 o blant ac, o blith y rheini, mae ychydig dros 4,000 yn derbyn gofal maeth.

1.2 Rhyw £1.4 biliwn yw'r gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ac mae ychydig yn llai na 70,000 o bobl yn darparu'r gwasanaethau hynny. Mae gennym oddeutu 1,800 o leoliadau gofal sy'n cael eu rheoleiddio. Er bod gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ddarparu yn bennaf gan gyrff preifat ac annibynnol y mae, ar y cyfan, yn cael ei ariannu gan arian cyhoeddus a'i nod yw diwallu anghenion y cyhoedd. Gwasanaeth cyhoeddus i Gymru ydyw a disgwyliwn iddo gael ei seilio ar werthoedd ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.3 Mae'n dda gennym fod y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol[1] (y Comisiwn) wedi cefnogi'r weledigaeth a'r egwyddorion sydd yn ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*[2]. Hynny felly, ynghyd â gwaith y Comisiwn ac adolygiadau strategol eraill, sef adroddiad y grŵp gorchwyl ar y gweithle ac adroddiadau pellach ynglŷn â diogelu, yw sylfaen y Papur hwn. Ar sail y cyswllt a wnaed â'r amryw gyrff ac unigolion ar gyfer y gwaith hwnnw (siaradodd y Comisiwn ei hun â dros 150 o bobl a chyrff ac edrychodd ar dros 100 darn o dystiolaeth ysgrifenedig) yr hyn a ddaeth yn amlwg yw bod gennym wasanaeth ac iddo nifer o gryfderau. Mae hefyd wedi rhoi arweiniad clir i ni ynghylch y ffordd ymlaen.

1.4 Mae'n dda gennym allu cyflwyno Papur a luniwyd ar sail y sgyrsiau pwysig hynny a gawsom a'r cryfderau hynny. Fel y dywed y Prif Arolygydd[3], "Mae tystiolaeth barhaus o'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud ar draws y gwasanaethau o'r broses o atgyfeirio i'r broses o asesu'r angen, comisiynu gwasanaethau a darparu cynllun gofal." Dywedodd yn glir hefyd "rhaid i ni ddathlu'r hyn sydd wedi'i gyflawni gan yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol hynny a'r darparwyr gofal cymdeithasol hynny sy'n darparu gwasanaeth effeithiol sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i gynifer o bobl"[4]. Gwyddom fod miloedd lawer o bobl yn derbyn gwasanaethau sy'n cael eu

---

[1] Gweithredu'r Weledigaeth: Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, Tachwedd 2010

[2] Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Cynllun ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf , Chwefror 2007

[3] Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2009-10, tud 11

[4] Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2009-10, tud 3

gwerthfawrogi ganddyn nhw; bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed; bod atebion arloesol yn cael eu cynnig i ddatrys problemau sydd, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn amhosibl eu datrys, a hyn oll flwyddyn ar ôl blwyddyn.

1.5 Mae ein cymdeithas yn newid, fodd bynnag, ac wrth i gymdeithas newid rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid hefyd. Ni fydd hi'n syndod clywed bod ein disgwyliadau ni oll o ran ein gwasanaethau cyhoeddus heddiw yn hollol wahanol i ddisgwyliadau pobl ddeng mlynedd yn ôl. Rhaid eu hail-greu o'r newydd a chanolbwyntio ar ein hanghenion ni heddiw.

1.6 Mae mwy o amrywiaeth o fewn ein teuluoedd bellach ac mae technoleg wedi trawsnewid ein ffordd o gyfathrebu â'n gilydd. Rydym yn fwy ymwybodol o'n hawliau. Mae ein disgwyliadau o ran mynnu bod ein llais yn cael ei glywed a'n gallu i reoli'r gwasanaethau rydyn ni'n eu defnyddio yn uwch nag erioed o'r blaen.

1.7 Mae demograffeg ein cymdeithas yn newid. Rydym yn gymdeithas sy'n heneiddio ac rydyn ni hefyd yn gweld mwy o lawer o bobl ganol oed ag anableddau mawr sy'n gallu byw eu bywyd yn llawn. Rydyn ni hefyd yn gweld mwy o lawer o blant sydd ag anableddau mawr sydd, yn gwbl briodol, â disgwyliadau uchel o ran y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

1.8 Mae yna rai newidiadau nad ydynt mor dderbyniol. Mae rhai teuluoedd a chymunedau yn fwy gwasgaredig bellach ac mae effeithiau problemau megis camddefnyddio sylweddau yn amlwg i'w gweld.

1.9 Mae'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn ddifrifol ac ar lefel nad oes modd ei chynnal ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ar gynnydd hefyd. Cynyddu mae nifer y bobl ag anabledd dysgu sydd wedi'u cofrestru ag awdurdodau lleol yng Nghymru a chynyddu hefyd y mae nifer y bobl hŷn sydd ag anghenion gofal cymhleth a allai elwa ar gael cymorth. Mae eu hanghenion o ran y cymorth sydd ei angen arnynt hefyd yn fawr.

1.10 Mae'r rhagolygon yn darogan cyfnod anodd o safbwynt ariannol. Ni allwn brynu'r ffordd ymlaen serch hynny. Mae'r Papur hwn yn seiliedig ar y dybiaeth mai'r arbedion a geir o gynlluniau megis cyfuno swyddogaethau cefn swyddfa a defnyddio dulliau callach o gaffael yw hanfodion darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Mae angen newidiadau mwy sylfaenol fodd bynnag i fynd i'r afael â maint yr her sy'n ein hwynebu.

1.11 Mae yna ddewis: cwtogi neu adnewyddu. Ystyr cwtogi yw y byddai llai o bobl yn derbyn gwasanaethau, y byddai mwy o ddisgwyliadau i bobl fynd ati i ddatrys eu problemau eu hunain, y byddai'n rhaid i ofalwyr anffurfiol ysgwyddo mwy o faich ac y byddai mwy o anghydfod rhwng gwasanaethau megis y GIG a gofal cymdeithasol ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am y gwasanaethau. Nid opsiynau a fydd yn diwallu anghenion pobl Cymru mo'r rhain. Rydym yn falch o'r dewis arloesol o wasanaethau sydd wedi eu creu a'u teilwra i fodloni anghenion unigolion ond os na ddilynwn y trywydd sydd wedi'i

gynnig yn y Papur hwn, fe welwn sefydliadau yn mynd i'r un trafferthion wrth geisio ymgodymu â'r cyfyngiadau ariannol a welsom ddeng mlynedd a mwy yn ôl.

1.12 Ystyr adnewyddu yw ein bod yn canolbwyntio'n llwyr ar yr hyn rydyn ni am ei gyflawni; mae'n golygu parhau i fod yn flaengar ac mae'n golygu creu gwasanaethau sy'n gynaliadwy. Ein dewis ni oedd adnewyddu - nid am mai dyna'r dewis hawdd ond am mai dyna'r dewis iawn. Mae'r gyllideb a luniwyd yn ddiweddar yn dangos ein bod yn barod i chwarae ein rhan wrth wireddu'r uchelgais hwnnw.

1.13 Teitl adroddiad y Comisiwn, *Gweithredu'r Weledigaeth*, yw ein harwyddair. Rydym yn cytuno â'r argymhelliad bod angen i ni ganolbwyntio ar nifer bychan o faterion strategol. Nid ychwanegu haen arall felly ond peidio â gwneud rhai pethau a rhoi sylw i bethau eraill newydd. Ein blaenoriaeth gyntaf yw gwneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n fwy cydgysylltiedig am y bydd hyn yn golygu y bydd y capasiti sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n well. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio at yr un diben, bod unrhyw ddyblygu sydd yn y system yn cael ei ddileu, ein bod ni i gyd yn dysgu oddi wrth ein gilydd ac nad ydyn ni'n ail-greu'r olwyn. Ein cyfraniad ni at arwain y gwaith adnewyddu fydd cymryd mwy o gyfrifoldeb am lywio cyfeiriad y gwasanaethau. Gwnawn hynny drwy gefnogi darparu gwasanaethau yn lleol o fewn fframwaith a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarn yn genedlaethol yn lle targedau manwl.

1.14 Rydym yn disgwyl gweld gwasanaethau yn canolbwyntio mwy ar anghenion o ganlyniad i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael llais cryfach a mwy o reolaeth dros eu gwasanaethau. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i greu gweithlu cryfach a fydd â mwy o hyder yn eu barn broffesiynol eu hunain a byddwn yn cyhoeddi llai o ganllawiau er mwyn rhoi iddynt y rhyddid sydd ei angen arnynt. Ei wneud yn iawn y tro cyntaf – rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth i ni.

1.15 Rydym yn disgwyl i wasanaethau gael eu darparu yn fwy effeithlon ac effeithiol drwy annog mwy o gydweithio a thrwy integreiddio gwasanaethau. Trwy sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael lle canolog yng ngwaith llywodraeth leol byddwn yn eu sbarduno i fod yn gryfach. Byddwn hefyd yn manteisio ar ddyletswyddau ehangach llywodraeth leol o safbwynt arweiniad cymunedol a'r amrywiaeth eang o wasanaethau sydd ar gael. Byddwn yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o fanteision ein dull unigryw o greu gwasanaethau integredig yn seiliedig ar y teulu yma yng Nghymru; a byddwn yn symleiddio'r broses o sicrhau atebolrwydd am y ddarpariaeth drwy ei gwneud yn gliriach a thrwy sicrhau bod y cyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau yn gadarn yn nwylo'r rheini sy'n comisiynu gwasanaethau.

1.16 Mae gan Gymru brofiad helaeth ym maes diogelu plant ac oedolion fel ei gilydd. Byddwn yn symud ymlaen yn awr at y cam nesaf o'i ddatblygu.

1.17 Er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau hyn byddwn yn edrych eto ar y ffordd yr ydym yn ysgogi gwelliant. Rhaid i bobl gael y sicrwydd a ddaw o arolygu a

rheoleiddio ac o wybod y caiff camau cadarn eu cymryd lle bo angen. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd y newidiadau yr ydym yn eu gwneud yn lleihau'r baich rheoleiddio ac arolygu.

1.18 Mae adolygiadau strategol eraill ar y gweill. Byddwn yn parhau i sicrhau bod goblygiadau adolygiad y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ynglŷn â llywodraeth leol ac adolygiad y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ynglŷn â gwasanaethau addysg yn cael eu hystyried wrth gyflwyno'r newidiadau hyn. Bydd yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a gomisiynwyd ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Lloegr, yn dylanwadu'n fawr ar wasanaethau cymdeithasol plant. Bydd angen i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau mawr hefyd am sut y bydd pob un ohonom yn talu am ofal yn sgil Comisiwn Dilnot. Efallai y daw cyfleoedd, yn sgil Adolygiad Munro ar ddiogelu plant yn Lloegr, y bydd Llywodraeth y Cynulliad am eu hystyried o safbwynt Cymru. Bydd goblygiadau i rai diwygiadau, er enghraifft y rhaglen diwygio lles, ar gyfer teuluoedd yng Nghymru a'r asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r teuluoedd hynny.

1.19 Yr hyn rydym wedi'i wneud felly yw nodi pa drywydd y dylid ei ddilyn yn hytrach na cheisio amlinellu pob syniad polisi neu ddatblygiad posibl. Nid traethawd hir am waith sydd eisoes ar y gweill a geir yma felly. Fframwaith ar gyfer newid ydyw, nid compendiwm.

1.20 Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu a fydd yn cydnabod na fydd modd cyflawni'r holl newidiadau dros nos. Bydd rhai o'r newidiadau polisi y byddwn yn eu cyflwyno yn cael eu gwneud o fewn y ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes; yn achos rhai eraill bydd angen newid y rheoliadau neu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd rhai o'r newidiadau o fewn ein pwerau tra bydd goblygiadau i eraill ar gyfer gwasanaethau sydd heb eu datganoli. Yn achos y rhain mae'n bosibl y bydd angen i'r newidiadau gael eu gwneud ar lefel Cymru a Lloegr. Ymhen pum mlynedd, pan fyddwn yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwn, yr hyn a welwn fydd proses o weddnewid y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru: fframwaith a fydd yn gwireddu ein gwerthoedd ac a fydd yn diwallu anghenion penodol Cymru.

# 2. EIN GWELEDIGAETH

## Adeiladu ar Gryfderau

2.1 Gwyddom oll y bydd yna rai adegau yn ein bywyd pan fydd pethau'n mynd yn dda ac yna, y bydd cyfnodau anodd yn dod ar ein traws. Yn ystod y cyfnodau anodd hynny byddwn yn troi at y bobl hynny sydd agosaf atom am gyngor, cymorth, anogaeth a help ymarferol. Pan fyddwn yn blant, yr hyn fydd ei angen arnom yw cymorth i'n meithrin a'n helpu ni i dyfu a datblygu. Bydd hyn yn parhau drwy gydol ein hoes. Bydd angen mwy o gymorth ar rai ohonom na'i gilydd; a bydd angen math gwahanol o gymorth arnom ar wahanol adegau.

2.2 Rydyn ni i gyd yn disgwyl mai ni fydd yn gwneud ein penderfyniadau ein hunain ac yn rheoli'r prif ddigwyddiadau yn ein bywydau. Lle bydd pobl eraill yn rhan o'r penderfyniadau, neu lle na fydd y mater dan sylw yn ein dwylo ni yn llwyr, rydym yn disgwyl i'n llais gael ei glywed. Weithiau, mae angen help arnom i leisio barn yn glir ac yn groyw. Anaml, fodd bynnag, y byddwn yn disgwyl y bydd yn rhaid i ni wneud y penderfyniadau mawr ar ein pen ein hunain. Rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth a gawn gan y teulu, sut bynnag y byddwn yn ei ddiffinio. Nid ydym am fod yn annibynnol na chadw ein hunain ar wahân i bobl eraill; yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano yw cyd-ddibyniaeth â phobl eraill o'n cwmpas. Byddwn hefyd yn edrych y tu hwnt i'n teulu personol i'n cylch ehangach o ffrindiau a'n cymuned i'n helpu.

2.3 Mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhan hanfodol o'r gymuned honno ac mae'n dda o beth eu bod yno i'n cefnogi. Nid anghenraid anffodus i grŵp bychan o bobl sydd, am ryw reswm neu'i gilydd, yn methu datrys eu problemau eu hunain mohonynt. Mae eu hangen arnon ni i gyd, weithiau pan fydd ein hangen yn fawr, ac ar adegau eraill fel cymorth wrth gefn. Gallant fod yn wasanaethau cyffredinol eu natur sydd ar gael i bawb neu gallant fod yn rhai mwy penodol sy'n cael eu cynnig ar adegau arbennig o anodd yn ein bywyd. Fel dinasyddion, dyna'n hawl.

2.4 Credwn felly y dylai gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol weithio mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o lais i ni; sy'n caniatáu i ni reolaeth lwyr ar ein bywydau; sy'n adeiladu ar ein cryfderau; sy'n atgyfnerthu dymuniad ein teulu i fod yn gefn i ni a'n cryfhau ni ac i'n galluogi ni i gyfrannu'n llawn i'r gymuned ac, yn ei dro, gael ein cynnal ganddi.

2.5 Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u datgan yn Neddf Plant 1989 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'r Gymraeg.

# Ein Hegwyddorion

Byddwn yn gweithio ar sail yr egwyddorion canlynol:

- **Llais cadarn a rheolaeth go iawn**

Rydyn ni i gyd yn disgwyl cael gwneud ein penderfyniadau ein hunain a rheoli ein bywydau ein hunain. Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu clywed ac i leisio barn yn gadarn ynghylch materion sy'n effeithio arnyn nhw. Byddwn yn cefnogi ac yn cryfhau gallu pobl i gyfrannu fel unigolion o fewn eu cylchoedd a'u cymunedau eu hunain. Byddwn yn estyn cymorth i sicrhau bod pobl yn gallu lleisio barn yn gryf ac yn groyw. Byddwn yn mynd ati i wrando a gweithredu ar yr hyn rydym wedi'i glywed.

- **Cefnogi ein gilydd**

Byddwn yn gweithio i gefnogi, cryfhau ac adeiladu ar ddyheadau pobl i helpu ei gilydd, yn arbennig ar adegau anodd.

- **Diogelwch**

Mae gennym oll, yn hen ac yn ifanc, yr hawl i gael ein diogelu rhag niwed ac esgeulustod lle gellir ei osgoi.

- **Parch**

Rydyn ni i gyd yn disgwyl cael ein trin ag urddas a pharch pan fyddwn yn defnyddio gwasanaethau. Byddwn yn trin unigolion fel pobl gyfrifol ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch y risgiau maent yn barod i'w cymryd.

- **Adfer ac ailsefydlu**

Pan fydd gennym broblem, boed yn blant, yn bobl ifanc neu'n oedolion, byddwn yn aml yn gofyn am help i'n galluogi ni i ailgydio yn ein bywyd a byw yn ôl ein dymuniad.

- **Addasu i amgylchiadau newydd**

Weithiau fe welwn fod y newid yn ein hamgylchiadau yn fwy parhaol. Disgwyliwn gael ein cynorthwyo i addasu i'n sefyllfa newydd.

- **Sefydlogrwydd**

Mae angen sefydlogrwydd arnom i gyd i dyfu a datblygu, yn enwedig plant. Bydd yn rhaid i unrhyw gymorth a roddwn felly sicrhau ein bod yn cynnig y sefydlogrwydd mwyaf posibl.

- **Symlrwydd**

Rydyn ni i gyd am wybod yn y ffordd symlaf bosibl sut i gael yr help sydd ei angen arnom.

- **Proffesiynoldeb**

Rydyn ni  i gyd yn disgwyl i'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda ni fod yn dda yn eu gwaith, yn hyderus ac yn ddiogel.

# 3. BLAENORIAETHAU AR GYFER GWEITHREDU

3.1 Er mwyn gwireddu'r egwyddorion hyn byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau canlynol ac yn disgwyl i eraill wneud yr un modd.

## Diben Cenedlaethol Grymus, Disgwyliadau ac Atebolrwydd Clir ar gyfer Darparu Gwasanaethau

3.2 Mae Cymru yn wlad fach a gall fod yn wlad glyfar os awn ati i fanteisio i'r eithaf ar fanteision dulliau llywodraethu gwlad fach. Ni welwn adeiladu dyfodol cynaliadwy fodd bynnag ar sail ein trefniadau presennol; trefniadadau sy'n seiliedig ar gyfeiriad cenedlaethol bras, fframwaith cyfreithiol cyffredinol a defnyddio disgresiwn lleol wrth wneud penderfyniadau. Mae angen cytundeb newydd arnom ni rhwng yr amryw bartneriaid ym maes gwasanaethau cymdeithasol.

3.3 Nid Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n atebol am ddarparu gwasanaethau. Cyfrifoldeb aelodau sy'n cael eu hethol yn lleol yw gweld beth yw'r angen a phenderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau yn eu hardal hwy. Bydd hyn yn sicrhau y gellir elwa'n llawn ar y manteision a ddaw o roi gwasanaethau cymdeithasol yng ngofal llywodraeth leol. Bydd yn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn rhan annatod o gyfrifoldeb llywodraeth leol i hybu lles, cynhwysiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol. Bydd hefyd yn clymu gwasanaethau cymdeithasol yn dynn wrth agweddau eraill ar waith llywodraeth leol megis tai, addysg, gwasanaethau ieuenctid a hamdden, datblygu economaidd, cludiant ac adfywio cymunedol. Mae rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn hanfodol wrth gyflawni'r agenda hon ac wrth roi llais corfforaethol i grwpiau difreintiedig yn y gymdeithas. Credwn er hynny y gall un unigolyn gyflawni'r rôl hon ar ran nifer o awdurdodau lleol. **Byddwn yn atgyfnerthu atebolrwydd corfforaethol drwy rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a thrwy swyddogaeth yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol.**

3.4 Dydy gwneud popeth 22 o weithiau ddim yn opsiwn. Disgwyliwn weld enghreifftiau positif o wasanaethau yn cael eu cynllunio yn rhanbarthol neu, lle bo'n fwy priodol, yn genedlaethol. **Byddwn yn gweithio i symleiddio'r prosesau cynllunio ac yn eu trefnu ar draws ffiniau. Disgwyliwn hefyd weld gostyngiad sylweddol yn nifer y partneriaethau.** Yn hytrach na holi "sut mae cydweithio ar draws ffiniau?" fe ddylem orfod cyfiawnhau pam nad ydym yn gwneud hynny.

3.5 Neges glir y Comisiwn oedd na fydd newid y trefniadau ar gyfer y partneriaethau yn unig yn ddigon. Rhaid newid hefyd sut mae'r gwaith o gomisiynu, caffael a darparu gwasanaethau yn cael ei drefnu. Nid yw'r adnoddau na'r capasiti nac ehangder yr arbenigedd ar gael i gynnal y trefniadau presennol. Er y gwelwn fod yna rinwedd i gynnig y Comisiwn y gallai trefniadau'r Byrddau Iechyd Lleol fod yn batrwm ar gyfer cydweithio rydym yn cydnabod bod y trefniadau ar gyfer gwasanaethau addysg ynghyd â gwasanaethau eraill yn berthnasol hefyd.

3.6 **Disgwyliwn felly y bydd gwaith comisiynu yn cael ei drefnu yn rhanbarthol. Gwelwn rinwedd mewn darparu gwasanaethau arbenigol (er enghraifft, nifer o wasanaethau plant gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer anhwylderau ar y sbectrwm awtistig) a gwasanaethau ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau yn rhanbarthol.**

3.7 **Bydd angen mwy o gydweithio wrth drefnu llawer o agweddau ar y gwaith ategol o ddarparu gwasanaethau, er enghraifft datblygiad a hyfforddiant staff.**

3.8 Credwn hefyd fod yna rai gwasanaethau a fyddai'n cael eu darparu'n fwy effeithiol yn genedlaethol. Rydym yn cydnabod mai prin yw ein profiad yn hyn o beth felly byddem am dreialu'r dull hwn gyda rhai gwasanaethau penodol. **Ein bwriad yw cydweithio â rhanddeiliaid i edrych ar gylch gwaith a swyddogaethau asiantaeth genedlaethol ar gyfer mabwysiadu.**

3.9 Weithiau gall fframwaith cenedlaethol yn hytrach na gwasanaeth cenedlaethol wneud gwahaniaeth. Mae strwythur marchnadoedd y gwasanaethau gofal, cefnogi a phlant wedi newid yn fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ein barn ni, gallwn wneud mwy i elwa ar bŵer pwrcasu Cymru os awn ati i weithredu ar y cyd â’n gilydd. Drwy wneud hynny byddwn hefyd yn gwella cysondeb rhwng y gwasanaethau. **Byddwn yn gofyn i lywodraeth leol sefydlu contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau dibreswyl. Lle bo modd, byddwn yn disgwyl iddynt gael eu datblygu ar y cyd â'r GIG.**


3.10 Credwn fod yna ymroddiad o fewn y gwasanaeth i wireddu'r newidiadau uchod ac rydyn ni am adeiladu ar yr ymroddiad hwnnw. **Byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol felly i lywodraeth leol gyflwyno cynigion amlinellol i ni erbyn diwedd 2011 yn nodi sut y gellir bodloni ein disgwyliadau.** Gan ein bod yn rhoi llawer o bwys ar y newid strategol hwn, byddwn yn herio pa mor gyflym y mae'r datblygiadau yn cael eu cyflwyno lle bo angen a byddwn yn defnyddio pwerau i sicrhau bod y newid sylweddol hwn yn digwydd o fewn amserlen sy'n bodloni anghenion y bobl. Lle bo angen byddwn hefyd yn mynnu cael y pwerau hynny.

3.11 Rydym yn cydnabod bod rôl hanfodol i ddarparwyr preifat ac annibynnol ym maes gofal cymdeithasol ond nid ydym yn credu mai’r farchnad ddylai bennu blaenoriaethau. Credwn mai ni, gyda'n gilydd, ddylai ddylanwadu ar y farchnad yn hytrach na gadael i ddewisiadau'r farchnad ein harwain ni. Rhaid i ofal cymdeithasol gael ei ddarparu yng nghyd-destun ethos gwasanaeth cyhoeddus a byddwn yn disgwyl i'r rheini sydd am ddarparu gwasanaethau gofleidio'r gwerthoedd hynny. **Rhaid i bob un o'r partneriaid gael lle o gwmpas bwrdd y bartneriaeth a gwnawn yn siŵr bod yna le i’r sector annibynnol chwarae ei ran yn llawn hefyd. Yn gyfnewid am hynny, byddwn yn asesu ansawdd yr holl wasanaethau ar sail yr egwyddorion sydd yn y Papur hwn.**

3.12 Er mwyn hyrwyddo'r newidiadau hyn **byddwn yn sefydlu Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol o dan arweiniad Gweinidog**. Bydd y Fforwm yn cynnwys arweinwyr gwleidyddol rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol a chynrychiolwyr gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Bydd **yn derbyn cymorth gan Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol** o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

3.13 **Byddwn yn atgyfnerthu atebolrwydd lleol ac yn disgwyl i bartneriaethau ehangach leihau cymhlethdodau a sicrhau arbedion a gwelliannau wrth gynllunio, comisiynu a chyflwyno gwasanaethau.** Wrth wraidd hyn oll fydd cydbwysedd newydd yn ein perthynas â defnyddwyr y gwasanaethau eu hunain. Drwy hyn byddwn yn creu cytundeb newydd o ran ein cysylltiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac o ran ein cysylltiadau â'r bobl hynny sy'n dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Dyma ddiagram yn dangos sut y gwelwn y trefniadau newydd yn gweithio:



## Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

3.14 Er mwyn cyflwyno'r Diben Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol **byddwn yn datblygu fframwaith newydd sef Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.** Bydd yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r egwyddorion rydym wedi'u nodi yn y ddogfen hon a bydd yn arwain ein gwaith er mwyn gwella gwasanaethau. Byddwn yn disgwyl i bob rhan o'r system - awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau yn ogystal â gweithwyr proffesiynol unigol - gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn a byddwn yn sicrhau nad yw'r fframwaith yn gweithredu'n annibynnol ar fframweithiau eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus. **Byddwn yn mesur y cynnydd a wneir drwy ddefnyddio cyfres ddiwygiedig o ddangosyddion a fydd wedi'u cyhoeddi, a fydd yn benodol eu natur ac a fydd yn uchel o ran eu lefel.** Byddwn yn lleihau'r baich biwrocrataidd ar y rheng flaen drwy ddibynnu llai ar fesur prosesau a dibynnu mwy ar nifer bychan o fesurau sy'n profi gwerth y gwasanaethau. Bydd hefyd yn lleihau biwrocratiaeth drwy ymdrin â thargedau mewn modd sy'n cefnogi dysgu o fewn y gwasanaethau. Drwy fod yn dryloyw, bydd yn sicrhau bod gan ddinasyddion yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i ddwyn gwasanaethau i gyfrif. **Byddwn yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid oll i adolygu'r wybodaeth, y dysgu a'r system rheoli perfformiad er mwyn llunio strategaeth gynhwysfawr a chydlynol. Awn ati hefyd i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r rheoliadau.**

## Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

3.15 Gall gwasanaethau cymdeithasol fod yn falch o'u llwyddiant dros y blynyddoedd i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn haeddiannol felly. Mae gan blant a phobl ifanc hawliau clir ac i gefnogi'r hawliau hynny mae strwythurau cadarn i'w gwireddu, gwasanaethau eiriolaeth a Chomisiynydd Plant. Bydd ein Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn dwysáu ymhellach yr ymrwymiad hwnnw. Mae Cymru wedi bod ar y blaen ar lefel fyd-eang wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a byddwn yn parhau i'w datblygu ymhellach. Mae gennym Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn[5] sydd wedi derbyn canmoliaeth gan wledydd eraill ac ni hefyd sydd â'r Comisiynydd cyntaf yn y byd ar gyfer Pobl Hŷn.

3.16 Mae'r Comisiwn yn nodi'n glir bod llawer i'w wneud eto. Credwn fod cysylltiad rhy agos bellach rhwng y label "personoli gwasanaethau" a model o gynnig dewisiadau i ddefnyddwyr sy'n cael ei arwain gan y farchnad. Rydym o blaid yr hyn a ddywed y Comisiwn, fodd bynnag, ynghylch rhoi mwy o reolaeth i'r unigolyn. Byddwn yn disgwyl felly i'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar ynghylch comisiynu arwain at greu gwasanaethau ar y sail honno. **Byddwn yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau greu trefniadau cadarnach i gynnwys y bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau yn uniongyrchol a byddwn yn defnyddio ein pwerau rheoleiddio i fesur y cynnydd a wneir. Gan ddefnyddio'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc, byddwn hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno cynigion a fydd yn cynnwys hawl plentyn i gael ei glywed o fewn diffiniad ehangach o les o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.**

3.17 I rai pobl, mae bod mewn rheolaeth yn golygu'r gallu i reoli eu gwasanaeth eu hunain. Mae taliadau uniongyrchol yn gyfrwng pwysig i roi mwy o reolaeth i rai pobl. Lle bydd pobl yn dewis cael taliadau uniongyrchol, byddwn yn disgwyl bod ganddynt yr hawl i'w derbyn. **Byddwn yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid i gyd ac yn arbennig gyda'r rhai sydd â buddiannau fel defnyddwyr gwasanaethau er mwyn datblygu model o gymorth a gaiff ei lunio yn unol â chyfarwyddyd yr unigolyn ei hun ac a fydd yn gyson â'n hegwyddorion ar gyfer gofal cymdeithasol. Bydd hefyd yn cynnwys fframwaith cadarnach o gymorth i'r bobl hynny a fydd yn dewis y trywydd hwn. Byddwn hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o greu cronfa amser fel modd o greu gwasanaethau arloesol a fydd yn ymateb i anghenion.**

3.18 Mae angen llais cryfach ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, wrth i wasanaethau gael eu cynllunio a'u gwerthuso. **Disgwyliwn weld mwy o amrywiaeth o wasanaethau yn cael eu rhedeg gan y bobl eu hunain, fel defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a phobl sy'n darparu'r gwasanaethau hynny. Mae gofal cymdeithasol yn faes parod ar gyfer datblygu mentrau cymdeithasol. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i weld sut mae goresgyn y rhwystrau sy'n bodoli i'w**

[5] Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru - Byw'n Hirach Byw'n Well, Mawrth 2008

**datblygu.** Bydd angen ystyried sut y gall ffynonellau newydd o gyllid helpu i greu modelau newydd o wasanaethau a **byddwn yn edrych i weld sut y gall bondiau effaith gymdeithasol chwarae rhan bwysig yn hyn o beth.**

3.19 Heb gefnogaeth gofalwyr, fyddai fawr neb ohonon ni yn gallu ymdopi â'r anawsterau sy'n ein hwynebu. Dyna'r rheswm pam rydyn ni eisoes wedi cymryd camau i ddeddfu fel bo gofalwyr yn cael yr wybodaeth gydgysylltiedig sydd ar gael ac sydd ei hangen arnyn nhw drwy strategaethau ar gyfer gwybodaeth integredig a gynlluniwyd yn benodol i ofalwyr. Rydym hefyd yn cydnabod anghenion gofalwyr ifanc yn arbennig. **Bydd Mesur Gofalwyr 2010 yn weithredol o 2011-12 ymlaen a byddwn hefyd yn adnewyddu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru**. Mae anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu cwmpasu'n llawn yn y naill a'r llall.

3.20 Rydym am gydnabod yr amrywiaeth sy'n bodoli yng Nghymru a hefyd ei statws fel cenedl ddwyieithog. I'r diben hwnnw, felly, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl ar gyfer y Gymraeg ym maes gwasanaethau cymdeithasol. **Byddwn yn ymateb i argymhellion y grŵp gorchwyl hwnnw pan gânt eu cyhoeddi.**

## Gwasanaethau Integredig

3.21 Gwyddom fod angen integreiddio'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu i bobl hŷn ac ifanc fel ei gilydd. Mae angen cryfhau’r ffordd rydym yn gweithio fel tîm er mwyn dwyn ynghyd arbenigedd gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau gwahanol. Mae pobl yn disgwyl i wasanaethau gael eu hadeiladu o gwmpas eu hanghenion nhw ac nid anghenion sefydliadau. Mae yna enghreifftiau da o wasanaethau integredig sy'n dwyn ynghyd yr holl amrywiaeth o wasanaethau llywodraeth leol – addysg, tai a datblygu cymunedol. Yn ôl ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) a'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) gwnaed cynnydd gwirioneddol yng Nghymru wrth weithredu modelau newydd o wasanaethau iechyd a chymdeithasol integredig (caiff y gwaith ymchwil hwn ei gyhoeddi cyn hir). Ond mae angen i ni wneud mwy eto.

3.22 Mae cynaliadwyedd yn dibynnu ar integreiddio gwasanaethau yn gynt. Oherwydd y cynnydd yn y galw a'r cyfyngiadau ariannol, rydym wedi gweld meini prawf y gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu tynhau gyda llai o bobl hŷn yn derbyn gwasanaethau am fod arian wedi'i wario ar y bobl hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth. Yr un yw'r sefyllfa gyda gwasanaethau i blant. Nid yw'r opsiwn yma yn gynaliadwy o gwbl. Os yw gwasanaethau cyhoeddus i fodloni'r galw mae'n rhaid i ni symud y drafodaeth yn ei blaen. Nid annog y gwasanaethau cymdeithasol i ddychwelyd i'w "rôl ataliol" mo'r ateb ond yn hytrach gydnabod bod yr awdurdod lleol cyfan yn gyfrifol am arwain gwasanaethau cymunedol a hyrwyddo lles cymunedol. Yr awdurdod hefyd ddylai sbarduno'r cymunedau eu hunain i ymrwymo i'w gwneud hi'n bosibl i'r bobl chwarae rhan lawn. Heb hyn, bydd yn rhaid i'r bobl hynny sy'n dechrau wynebu anawsterau droi cyn hir at ffyrdd mwy ymwthiol a chostus o ddatrys eu problemau, a hynny iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd ac i'r gwasanaethau. I bobl hŷn, er enghraifft, mae gweithgareddau hanfodol megis garddio, glanhau a siopa; clybiau cinio, gwasanaeth galw'r gyrrwr a chyfeillio; dosbarthiadau ymarfer corff a chyfrifiaduron yn hanfodol er mwyn caniatáu i’r gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG ganolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n ei wneud orau.

3.23 Dyna pam rydym wedi arwain ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Er bod llwyddiannau gwirioneddol wedi deillio o'r Strategaeth, mae gwahaniaethu ar sail oedran yn realiti anffodus o hyd a gyda'r rhagolygon y bydd nifer a chanran y bobl hŷn yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y degawd nesaf, mae'n rhaid i ni barhau i symud yn ein blaenau ac adeiladu ymhellach ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma. **Byddwn yn cefnogi adolygu ail gam y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ac yna'n lansio Cam 3.**

3.24 **Byddwn yn cefnogi datblygu'n ehangach rôl arweinyddiaeth gymunedol llywodraeth leol. Gwelwn hefyd fod gan y gwasanaethau iechyd cyhoeddus ran bwysig i’w chwarae. Rydym yn disgwyl i'r trydydd sector gymryd rhan lawn yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth yn y gymuned, yn arbennig yng nghyd-destun datblygu mentrau cymdeithasol yng Nghymru.**

3.25 Yn yr un modd mae'n rhaid i wasanaethau cymdeithasol chwarae eu rhan yn llawn wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Mae gwasanaethau cadarn ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion bywiog sy'n edrych y tu hwnt i'w muriau eu hunain ac sy'n gynhwysol, a gwasanaethau ieuenctid cadarn yn hanfodol os yw gwasanaethau cymdeithasol i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau. Mae mentrau fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn allweddol i gefnogi teuluoedd mewn angen ac i atal problemau mawr rhag digwydd. Mae cyswllt di-dor rhyngddyn nhw a Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd yn hanfodol.

3.26 **Er mwyn creu mwy o fomentwm byddwn yn rhoi blaenoriaeth i dri maes lle byddwn yn disgwyl gweld mwy o integreiddio wrth ddarparu gwasanaethau:**

- **Teuluoedd ag anghenion cymhleth**
- **Plant anabl yn troi'n oedolion**
- **Pobl hŷn sy'n fregus eu hiechyd**

3.27 Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyllidebau cyfun wedi'i hen sefydlu ac rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o helpu pobl i ddeall sut y gall hyn gael ei roi ar waith. **Rydyn ni nawr yn disgwyl gweld gwasanaethau'n cael eu darparu a byddwn yn disgwyl i reoleiddwyr ac arolygwyr weithio gyda'i gilydd i asesu'r hyn a gyflawnwyd wrth ddarparu gwasanaethau integredig.**

**Teuluoedd ag anghenion cymhleth**

3.28 Mae ymyrryd yn gynnar yn hanfodol i sicrhau llwyddiant. Rhaid i lawer o'r gwaith hwn gael ei gynllunio yn lleol ac ar draws amryw asiantaethau. Mae tystiolaeth wedi dangos bod modelau sy'n seiliedig ar arferion adfer ac sy'n defnyddio arbenigedd ysgolion, cyrff cymunedol, yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. **Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i weld sut mae mynd ati i gryfhau trefniadau cydweithio yn lleol ar draws amryw asiantaethau yng Nghymru.**

3.29 Rydym eisoes wedi deddfu i sicrhau gwasanaethau integredig i fodloni anghenion teuluoedd ag anghenion cymhleth. Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar iechyd a llywodraeth leol i gydweithio. Mae wedi sefydlu timau arloesol sef Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd ac mae wedi'i gwneud hi'n ofynnol i weithwyr proffesiynol ystyried anghenion plant wrth asesu anghenion oedolion. **Dyma yn ein barn ni yr hanfodion craidd ar gyfer gwasanaethau integredig i blant a byddwn yn cyflwyno'r dull hwn o weithio ar draws Cymru gyfan.**

3.30 **Byddwn yn trafod gyda rhanddeiliaid y posibilrwydd o roi cychwyn i'n pwerau o dan adrannau 66 a 67 o'r Mesur er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff iechyd a gweithwyr proffesiynol a gontractiwyd ganddynt ystyried, pan fyddant yn asesu neu'n trin oedolyn, bod angen tynnu sylw at unrhyw blentyn a allai, o ran ei les, fod o dan fygythiad neu mewn perygl. Bydd yn ofynnol ystyried**

**hefyd pa gymorth sydd ei angen neu a oes angen ei gyfeirio at sylw'r gwasanaethau plant.**

3.31 Yr ateb gorau i rai plant yw byw oddi cartref. Mae gormod o blant yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal serch hynny. Mae dewis y lleoliad yn ffactor hollbwysig yn achos plant sy'n derbyn gofal ac mae'r canlyniadau fel rheol yn well os caiff y plentyn neu'r person ifanc ei leoli o fewn ei ardal leol. Mae hefyd yn rhoi mwy o gyfle i wasanaethau gael eu cydlynu, yn creu gwell perthynas rhwng y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol a gwell perthynas â'r teulu. Rydym am weld amryw o leoliadau arbenigol yn cael eu cynnig yn lleol ac yn rhanbarthol.

3.32 Mynd a dod y mae pobl sy'n derbyn gofal. Yn ôl gwaith ymchwil a data a gasglwyd[6] lle bo plentyn mewn gofal am dros flwyddyn mae'r posibilrwydd y caiff ei anfon yn ôl adref yn llwyddiannus yn lleihau gryn dipyn.

- Bydd dwy ran o dair o'r plant yn mynd yn ôl adref o fewn y chwe mis cyntaf ond mae hyn yn gostwng i un rhan o bump ar ôl treulio blwyddyn mewn gofal.
- Mae llwyddo i fynd yn ôl adref yn gynnar yn ddibynnol ar ddylanwadau "cychwynnol", gan gynnwys ansawdd yr ymlyniad rhwng y plentyn a'r teulu ac agwedd y rhieni - eu cymhelliant, eu parodrwydd i gymryd rhan ac i dderbyn ymyriadau wedi'u cynllunio ymlaen llaw gan weithwyr cymdeithasol. Wrth i'r plentyn dreulio mwy a mwy o amser mewn gofal mae tystiolaeth yn dangos bod llai o ewyllys ar ran y teulu, y plentyn ei hun a'r ymarferwyr i'w ailuno â'i deulu.

3.33 Cred Llywodraeth y Cynulliad, fodd bynnag, mai'r teulu, lle bo hynny'n bosibl, all roi'r gofal gorau i blant. Dyma flaenoriaethau ein polisi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant:

- Cefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant;
- Lle nad yw hynny'n opsiwn, rydym yn disgwyl gweld mwy o sefydlogrwydd yn cael ei roi i'r plant hynny sy'n derbyn gofal, gyda'u ffrindiau ac yn yr ysgol, ac i'r bobl hynny sy'n rhoi cefnogaeth iddynt;
- Sicrhau bod plant sy'n byw yng Nghymru, ac y mae angen gofal arnyn nhw, yn cael cynnig lle i fyw neu'n cael eu hadsefydlu yng Nghymru, a hynny'n agos at eu cartref neu mewn cymuned gerllaw oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud trefniadau o'r fath. **Byddwn yn adeiladu ar ein polisi *Tuag at Fywyd Sefydlog*[7] gyda'r nod o gyflymu'r broses o gyflwyno ein polisi o gynnig lleoliad yn agos at y cartref. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar ffyrdd o ddatblygu amryw o wasanaethau gofal arbenigol yn y rhanbarthau yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i leoliadau arbenigol yng Nghymru gael eu comisiynu yn genedlaethol neu yn rhanbarthol;** a

[6] Quality Matters in Children's Services: Messages from Research, Mike Stein, 2009
[7] Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell: Rheoliadau a chyfarwyddyd, Mehefin 2007

- Gweithredu ynghynt i sicrhau sefydlogrwydd neu ddod o hyd i deuluoedd eraill ar gyfer y plant hynny na fyddai o les iddynt fynd yn ôl adref.

3.34 Mae dyfodol y System Cyfiawnder Teuluol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys materion sydd wedi'u datganoli a materion sydd heb eu datganoli yn ogystal â'r gyfraith gyhoeddus a phreifat. Disgwylir yr adroddiad ar yr adolygiad, a gafodd ei gomisiynu ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Lloegr, yn hwyrach eleni. Mae llawer o'r materion sy'n cael eu trafod yn faterion sydd heb eu datganoli ac mae cyswllt annatod rhwng rhai eraill - er eu bod wedi'u datganoli - â'r llysoedd a deddfwriaeth y DU. Er mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw penderfynu ynghylch rhai agweddau ar y prosesau craidd ar gyfer gwasanaethau plant, rhaid ystyried unrhyw gynigion o fewn cyd-destun ehangach yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a'r newidiadau deddfwriaethol posibl a ddaw yn sgil y gwaith hwnnw. **Byddwn yn gweithredu ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw, ar sail ein hegwyddorion ni ac anghenion plant Cymru. Disgwyliwn yn arbennig y bydd lle canolog yn cael ei roi i hawliau a lleisiau plant yn rhan o'r broses ac y bydd camau pendant yn cael eu cymryd i sicrhau y cânt leisio eu barn yn briodol.**

**Trosglwyddo**

3.35 Dywedodd y Comisiwn yn glir fod angen gwneud mwy i alluogi pobl i reoli'r broses o drosglwyddo. Mae hyn wrth wraidd ein hymrwymiad i greu model integredig o wasanaethau i'r teulu, model sy'n ymwrthod â'r arfer o bennu angen ar sail oed. Ar gyfer plant anabl a gafodd eu hasesu'n blant ag anghenion cymhleth, credwn y dylai'r trefniadau trosglwyddo ar eu cyfer fod yn gyfartal â'r trefniadau a luniwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ein nod yw sicrhau bod plant anabl yn cael cefnogaeth wrth iddynt dyfu'n oedolion a dod yn ddinasyddion sy'n cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar eu bywyd.

3.36 **Byddwn yn ymgynghori ynghylch ymestyn hawliau plant anabl o dan Ddeddf Plant 1989 a phobl ifanc dros 18 a hyd at 21. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn penderfynu ar y trefniadau priodol i gynorthwyo pobl ifanc i anelu at fyw'n annibynnol ac i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i gael addysg a gwaith. Gallent gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benodi cynghorydd personol (gweithiwr pontio) pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 17 neu 18 oed. Byddai iddo rôl allweddol yn cydlynu rhwng asiantaethau a chyrff addysg er enghraifft.**

**Pobl hŷn**

3.37 Noda'r Prif Arolygydd[8] fod llawer i ymfalchïo ynddo o ran yr hyn a gyflawnwyd ar gyfer pobl hŷn, a bod sylw clir wedi'i roi i ddiogelwch, urddas ac annibyniaeth. Gwyddom hefyd fod llais pobl hŷn yn gryfach nag erioed o'r

---

[8] Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2009-10

blaen. Mae ei hadroddiad, fodd bynnag, yn mynegi gofid ynghylch pa mor gyflym y llwyddwyd i newid y pwyslais o fodelau sy'n cynnig gofal mewn sefydliadau i fodelau sy'n cynnig gofal yn y gymuned. Dywed yr adroddiad, "Mae'r gyfradd gymharol araf hon o gynnydd yn dangos yr her o gyflawni newid sylweddol mewn gofal cymdeithasol i oedolion"[9].

3.38 Mae maint a chymhlethdod cynyddol yr angen, a'r adnoddau sydd ar gael, yn her fawr a chynyddu ymhellach y bydd yr her honno. Nid ydym am ein gweld yn mynd yn ôl i'r cyfnod pan oedd yn rhaid dibynnu'n drwm iawn ar y teulu (ar y gwragedd yn aml iawn) am gymorth neu lle byddai gofal mewn sefydliadau yn cael ei gynnig fel ateb mewn nifer fawr o achosion. Mae'r gwaith sydd wedi'i arwain gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol[10] ar sicrhau mwy o arbedion mewn gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, y gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau eiddilwch a'r cynlluniau arloesol ar ofal ychwanegol a chymunedol, oll yn dangos y ffordd ymlaen i drawsnewid gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Bydd bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, yn arbennig ar gyfer pobl hŷn sy'n fregus eu hiechyd ac sydd ag anghenion cymhleth eu natur, yn flaenoriaeth i'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddwn yn ystyried canlyniadau Comisiwn Dilnot yn y cyd-destun hwnnw.

3.39 Bydd ailalluogi yn rhan ganolog o'n dulliau gweithredu. Trwy ymateb yn sydyn i annog pobl i wneud pethau drostynt eu hunain credwn y byddwn yn eu galluogi i wella'n gyflym neu i ddatblygu ffyrdd o fyw a fydd yn gweddu i'w hamgylchiadau newydd. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r angen i aros am becyn o ofal yn dilyn asesiad. Bydd rôl therapyddion galwedigaethol a'u cymorth i ddarparu gwasanaethau ailalluogi yn allweddol yn hyn o beth. **Byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i wasanaethau ailalluogi gael eu darparu ledled Cymru a byddwn yn sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn iddynt gael eu cynllunio a'u comisiynu yn rhanbarthol. Byddwn yn disgwyl i'r gwasanaethau hyn gael eu harwain ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG.**

3.40 Lle bydd angen cymorth ar bobl am gyfnod hirach, byddwn yn parhau i'w gwneud hi'n ofynnol bod eu hanghenion yn cael eu hasesu a bod y gwasanaethau priodol yn cael eu darparu. Byddwn, fodd bynnag, yn disgwyl i'r gwasanaethau hyn sicrhau bod y bobl hynny yn gwella i'r graddau y bo modd neu eu bod yn gwneud y mwyaf o'u hamgylchiadau newydd.

3.41 I rai pobl, cartref gofal fydd yr ateb cywir. Gwyddom, fodd bynnag, pa mor gyflym y gall pobl gyfarwyddo â bywyd mewn sefydliad o'r fath a pha mor gyflym y byddant yn colli eu gallu i wneud pethau drostynt eu hunain. Gwyddom hefyd, fodd bynnag, sut y gellir gwrthbwyso effeithiau byw mewn sefydliad:

- Canolbwyntio ar wella ac adsefydlu;

[9] Adroddiad y Prif Arolygydd 2009-10, tudalen 17
[10] www.ssiacymru.org.uk

- Ystyried mai ateb dros dro yn unig yw'r gofal a'r gwasanaethau cymorth a gynigir;
- Rheoli i'r graddau y bo modd y penderfyniadau sy'n rhaid eu gwneud o ddydd i ddydd sy'n effeithio ar eu bywyd;
- Annog cefnogaeth gan gymheiriaid; a
- Chynnwys eiriolaeth yn rhan o wasanaethau cymorth

**Byddwn yn disgwyl i wasanaethau gofal a chymorth weithio o fewn y model rhagweithiol hwn.**

3.42 Un o'r problemau mwyaf y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hi yw demensia. Mae'r ystadegau yn siarad drostynt eu hunain am faint yr her arbennig hon. Gwyddom y bydd 1 o bob 3 o bobl hŷn yn dioddef o ryw ffurf ar ddemensia erbyn diwedd eu hoes. Mae demensia ar 1 o bob 5 o bobl dros 80 oed ac mae dwy ran o dair o bobl â demensia yn byw yn y gymuned. Mae angen i ni fod yn barod hefyd i wynebu'r her ehangach sydd ar y gorwel.

3.43 Rydym wedi amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaethau demensia yn seiliedig ar wasanaeth integredig ar draws yr holl wasanaethau cymdeithasol, y GIG a'r trydydd sector. **Disgwyliwn i'r bwriad i drawsnewid y gwasanaeth sydd wedi'i nodi yn y polisi hwnnw gael ei weithredu ar gyfer pobl â demensia.**

# Lleihau Cymhlethdodau

## Symleiddio sut mae dod o hyd i wybodaeth

3.44 Mae'r gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wedi tyfu'n gynyddol dros y blynyddoedd, gyda'r naill ddatblygiad defnyddiol yn cael ei ychwanegu at y llall. O ganlyniad, mae gennym system sydd bellach yn rhy gymhleth a lle caiff gwaith ei ddyblygu; nid yw felly yn defnyddio'r adnoddau prin sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn bwysicach na hynny, fodd bynnag, nid yw'n ddigon tryloyw i'r bobl hynny sy'n ei defnyddio, boed yn bobl gyffredin neu'n weithwyr proffesiynol. Mae gwybod at bwy neu ble i fynd am help yn gwbl hanfodol mewn unrhyw system.

3.45 **Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwasanaethau integredig sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor. Byddwn hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu "canolfan wybodaeth" ar gyfer gofal cymdeithasol a fydd wedi'i chysylltu â chynlluniau tebyg ar gyfer gofal sylfaenol.**

3.46 Cafodd rhywfaint o waith ei wneud ar ddatblygu gwasanaethau eirioli cyffredinol ar gyfer pobl hŷn ond digon bylchog yw'r ddarpariaeth ar hyn o bryd. **Byddwn felly yn datblygu achos busnes i gyflwyno gwasanaeth eirioli cynhwysfawr ar gyfer pobl hŷn gan nodi pa fath o gyfundrefn sydd ei hangen a phennu blaenoriaethau cychwynnol.**

3.47 Rydym am sicrhau bod y bobl hynny ag anghenion tebyg sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u gofalwyr, yn cael eu trin yn yr un modd lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru. **Gan weithio o fewn y fframwaith o ddiwygiadau i drefniadau ariannu gofal a chymorth, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflwyno fframwaith cenedlaethol o feini prawf i fesur pwy sy'n gymwys yn ogystal â chyflwyno system o asesiadau trosglwyddadwy o'r angen am ofal cymdeithasol i oedolion.**

## Gwireddu potensial technoleg

3.48 Mae'r byd digidol newydd yn creu cyfleoedd newydd. Nododd y Comisiwn:

> ”Mae angen i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru sefydlu eu hunain yn gadarn yn yr oes ddigidol. Gall technoleg newydd gynorthwyo i gynllunio a darparu gwasanaethau a gall wella ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr. Mae'n arwain at y posibiliadau o wasanaethau o ansawdd uchel ac arloesol sydd hefyd yn effeithlon o ran adnoddau.”[11]

[11] Gweithredu'r Weledigaeth: Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, tudalen 33, paragraff 4.57

3.49 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnwys y cyfleoedd hyn yn ei strategaeth "*Cymru Ddigidol*"[12]. Dyma faes allweddol i foderneiddio gofal cymdeithasol - un sy'n sbarduno arloesedd a chynhwysiant ac sy'n cryfhau llais pobl ac yn datblygu gwasanaethau. Byddwn yn edrych ar yr atebion a'r cyfleoedd a gynigir gan y byd digidol er mwyn lleihau cymhlethdodau, dyblygu a chostau; er mwyn gwneud pethau'n fwy effeithlon ac annog gwella ac arloesi; ac er mwyn rhoi llais i'r bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau a rheolaeth yn eu dwylo.

3.50 Mae gennym ddwy flaenoriaeth. Yn gyntaf, cefnogi gwaith i ddatblygu modelau newydd ar gyfer gwasanaethau. Trwy gyfathrebu, gall defnyddwyr gwasanaethau rannu profiadau a chynnig cefnogaeth i'w gilydd. Mae teleofal yn un model o'r fath ar gyfer darparu gwasanaethau ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae wrth roi cymorth i bobl sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth. Mae'n wasanaeth sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Ar 31 Rhagfyr 2009, roedd 19,699 o bobl yng Nghymru wedi derbyn gwasanaethau teleofal. **Byddwn yn disgwyl i'r bobl hynny sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau teleofal yn rhanbarthol ac am ddarparu'r gwasanaeth ddatrys problemau fel y gost i ddefnyddwyr y gwasanaeth a sut i'w integreiddio â gwasanaethau sy'n darparu cyfarpar cymunedol a gwasanaethau teleiechyd.**

3.51 Yn ail, mae technoleg yn caniatáu i adnoddau gael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac, yn arbennig, systemau gwybodaeth sy'n cefnogi arferion proffesiynol ac arferion rheoli. Byddwn yn disgwyl gweld technoleg yn cael lle canolog yn ein hymdrechion i sicrhau dulliau mwy effeithlon o weithio a gwella arferion proffesiynol**.**

**Rhannu Gwybodaeth Bersonol**

3.52 Mae rhywfaint o'r cymhlethdod sy'n wynebu pobl yn deillio o'n ffordd ni o rannu gwybodaeth. Byddwn ni yn dechrau ar sail y dybiaeth mai i'r unigolyn y mae'r wybodaeth yn perthyn, nid i'r sefydliad. Felly os yw'r unigolyn yn gwybod yn union pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu, o'r eiliad y bydd yn cysylltu am y tro cyntaf, mae modd osgoi llawer o gymhlethdod.

3.53 Mae gwaith eisoes ar droed i wella'r ffordd y mae gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu. Mae'n seiliedig ar bedair thema:

- Cytundeb - parodrwydd rhanddeiliaid i addasu, i weithio yn unol ag agenda strategol gytûn ac i fabwysiadu dulliau gweithredu a gweithdrefnau cytûn;
- Cydweithio - parodrwydd pobl i weithio gyda'i gilydd ar lefel rheolaeth leol;
- Crisialu'r rolau a'r cyfrifoldebau, yn ogystal â'r gweithdrefnau sy'n arwain prosesau, ar y rheng flaen; a
- Chydlynu ar lefel dechnegol wrth storio gwybodaeth.

[12] Cyflawni Cymru Ddigidol: Fframwaith Amlinellol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gweithredu, Rhagfyr 2010

3.54 **Yn sgil llunio *Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru*[13], ein bwriad yn awr yw cefnogi gwaith i ddatblygu Cymunedau Rhannu Gwybodaeth yn lleol gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o asiantaethau allweddol fel y gallant reoli, cynnig cyngor a chefnogi gweithredu ar y cyd. Disgwyliwn weld pobl yn cymryd rhan lawn yn y cymunedau hynny, a hynny mewn rôl ffurfiol hefyd. Byddwn yn cefnogi system genedlaethol o lywodraethu.**

[13] Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, 2007

## Gweithlu Hyderus a Chymwys

3.55 Mae'r gweithlu ledled Cymru wedi'i drawsnewid yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Drwy ddod o hyd i atebion i broblemau yng Nghymru ei hun, rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran recriwtio a chadw; mae safonau ansawdd wedi gwella; mae cymwysterau wedi'u cyflwyno drwy'r gwasanaeth; ac mae partneriaethau rhwng cyflogwyr a darparwyr wedi'u cryfhau yn sylweddol. O ganlyniad i'r radd mewn gwaith cymdeithasol, y flwyddyn gyntaf ar waith, a chynnwys yr hyfforddiant rydym wedi symud ymlaen gryn dipyn.

3.56 Credwn, fodd bynnag, na fydd modd darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gynaliadwy heb roi lle mwy canolog eto i gyfraniad proffesiynol gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol yn y gwasanaethau hynny. Er bod arweinyddiaeth, cydweithio, gwasanaethau integredig a chanolbwyntio ar berfformiad yn gallu cael effaith sylweddol, y ffordd y mae staff y rheng flaen yn gweithio o ddydd i ddydd gyda phobl sydd, yn y pen draw, yn gwneud gwahaniaeth.

3.57 Credwn fod ansawdd gweithwyr proffesiynol a'u proffesiynoldeb yn hollol ganolog i greu gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymateb i anghenion ac sy'n gynaliadwy. Er y byddwn yn adeiladu ar ein cryfderau bydd angen i ni hefyd ganolbwyntio mewn modd cwbl wahanol.

3.58 Gan gydnabod bod gan weithwyr cymdeithasol rôl bwysig i'w chwarae yn dod o hyd i adnoddau ac yn eu dosbarthu, credwn nad yw model o waith cymdeithasol sydd wedi'i seilio ar asesu a rheoli gofal yn addas i fynd rhagddo i'w ddatblygu. Mae'n amlwg bod asesiadau da o ansawdd yn hanfodol, ond mae bellach yn dominyddu gwasanaethau. Rydym am weld datblygu gwaith cymdeithasol a'r berthynas â'r gweithiwr cymdeithasol fel cyfrwng i alluogi pobl i wneud y gwahaniaethau y mae angen iddynt eu gwneud yn eu bywydau. Credwn fod y cysyniad o "reoli gofal" yn hen-ffasiwn bellach - mae'n cyfleu ymdeimlad o reolaeth gan y gwasanaeth, nid gan yr unigolyn. Gwyddom fod gweithwyr cymdeithasol yn gwneud mwy na darparu gofal yn unol â chynllun penodol a luniwyd ymlaen llaw; maent hefyd yn gyfrifol ar y cyd ag eraill am benderfynu ar y cymorth sydd ei angen ar bobl.

3.59 Mynegodd y Comisiwn bryder ynglŷn â’r llwyth gormodol o fiwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth asesu. Rydym o’r un farn. Mae asesiad effeithiol yn helpu defnyddwyr gwasanaethau i weld yn glir pa gymorth sydd ei angen arnynt. Mae dadansoddi a phwyso a mesur yn rhan o'r broses o wneud asesiad proffesiynol ac mae'n sail i'r holl gamau gweithredu dilynol. Er y bydd angen defnyddio gwahanol ddulliau asesu er mwyn deall anghenion gwahanol bobl, ein nod yw llunio proses asesu gydlynol ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen i ni hefyd ddysgu gwersi o weithio ar y cyd - asesu unedig er enghraifft - er mwyn sicrhau bod modd cynnal asesiadau ar draws gwahanol grwpiau proffesiynol.

3.60 Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn gyfle i newid y rheoliadau sy'n llywio'r ffordd y caiff gofal ei gynllunio, lleoliadau a'r broses o adolygu

achosion ar gyfer plant yng Nghymru a Lloegr. **Byddwn yn arwain adolygiad o'r trefniadau presennol a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer plant ac oedolion gan ystyried unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol ac adolygiad Munro yn Lloegr lle credwn y byddant yn arwain at sicrhau gwell canlyniad i blant yng Nghymru.**

3.61 Bydd angen trafod ymhellach y systemau TGCh sy'n sail i'r trefniadau hyn. Credwn mai mater i lywodraeth leol ei ddatrys yw hwn yn y pen draw gan mai systemau ydynt sy'n sail i'w holl fusnes craidd. Rydym yn cydnabod bod angen pennu cyfeiriad ar gyfer gofynion strategol ar lefel genedlaethol ac mae angen i ni sicrhau bod gennym systemau all ryngweithio gyda'i gilydd - a gyda'r bobl. Ni fyddwn yn disgwyl gweld 22 o wahanol drefniadau ar gyfer comisiynu, prynu a chefnogi systemau.

3.62 Gwyddom y bydd angen i ni ganolbwyntio gryn dipyn yn fwy ar arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y strwythur gyrfaoedd ar gyfer gwaith cymdeithasol ac yn rhan o'r trefniadau o lywodraethu arferion. Golyga hynny felly y bydd angen i ni edrych ar y ffordd rydym yn dilysu ac yn rhannu tystiolaeth o'r fath.

3.63 Mae cryfhau ymchwil ar ofal cymdeithasol yng Nghymru yn flaenoriaeth. Gan ddefnyddio argymhellion adroddiad Huxley[14] fel sylfaen, ein nod yw creu gwaith ymchwil uchel ei safon gan ddefnyddio'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) fel llwyfan i hyrwyddo ansawdd yr ymchwil a wneir i faes gofal cymdeithasol a hefyd faint o waith ymchwil a wneir. Ein nod hefyd fydd datblygu capasiti, a datblygu dulliau o gydweithio rhwng yr ymarferwyr yn y maes a'r gymuned ymchwil.

3.64 **Drwy gyfrwng NISCHR, awn ati i sefydlu Canolfan Rhagoriaeth ar gyfer Ymchwil ar Ofal Cymdeithasol.** Bydd hyn yn gwella'r ymchwil sydd gennym yn ogystal â'r defnydd a wneir o ymchwil, yn sgil gwell cydweithio a chydlynu. Bydd hefyd yn gwella ein gallu i ddatblygu capasiti; i ddatblybu sgiliau, rhannu sgiliau a rhoi sgiliau ar waith; a chynnwys y defnyddwyr a'r gofalwyr fel ei gilydd. Yn ogystal â hynny, bydd yn darparu ymchwil o safon uchel a fydd yn gysylltiedig â pholisi ac yn creu incwm o'r Cynghorau Ymchwil a'r Undeb Ewropeaidd.

3.65 Mae angen arweinyddiaeth o safon ar wasanaethau o safon. Rydym wedi croesawu'r gwaith a wnaed gan AGGC i gefnogi'r broses o ddatblygu rheolwyr tîm ac uwch reolwyr ond credwn fod lle i wneud rhagor eto. **Byddwn yn disgwyl i asiantaethau yng Nghymru ar gyfer gwella gyflwyno cynigion i wneud trefniadau ar lefel genedlaethol i ddatblygu uwch reolwyr er mwyn herio arweinwyr presennol a meithrin y genhedlaeth nesaf.** Rhagwelwn y bydd hyn yn cwmpasu pob sector, nid llywodraeth leol yn unig. Mae'n bosibl y bydd rhai yn ei alw'n "Goleg Cenedlaethol ar gyfer

[14] Better evidence for better commissioning: a study of the evidence base of generic social care commissioning guides in the UK, August 2010

Arweinyddiaeth". O’n rhan ni, eglurder ynghylch y canlyniadau a ddisgwylir fydd bwysicaf, nid y teitl na'r trefniadau eu hunain.

3.66 Mae'r grŵp gorchwyl ar y gweithlu wedi nodi'r camau nesaf mae angen eu cymryd er mwyn parhau i ddatblygu'r gweithlu ac i sicrhau bod ganddo'r hyn sydd ei angen i gyflawni yn y dyfodol. Mae'r adroddiad wedi rhoi i ni dystiolaeth i’n galluogi i symud ymlaen. Mae hefyd wedi tynnu sylw at yr angen dybryd i broffesiynoli'r gweithlu ymhellach, i gryfhau'r broses o lywodraethu arferion ac i barhau i gefnogi'r gweithlu drwy gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Rydym yn cefnogi hynny.

3.67 O dan arweinyddiaeth Cyngor Gofal Cymru, cafodd llawer ei wneud i osod sylfeini model newydd ar gyfer proffesiynoli gwaith cymdeithasol. Mae llawer o'r trefniadau angenrheidiol mewn sefydliadau i wireddu ein hamcanion wedi'u cyflawni bellach: mae gennym hyfforddiant wedi’i reoleiddio a chofrestr sy’n seiliedig ar gymwysterau ac rydym hefyd wedi diogelu'r teitl. Er hynny, mae gennym waith i'w wneud o hyd. Er enghraifft mae angen i ni sicrhau bod ein gofynion parhaus o ran cymwysterau wedi'u cysylltu â'r drwydded i ymarfer mewn rhai meysydd penodol ac ar rai lefelau penodol ar gyfer y rheini sydd ar y gofrestr. Mae angen i ni hefyd ddefnyddio'r model hwn i hyrwyddo’r hyn y gall y proffesiwn ei gyfrannu ymhellach. Ond rydym hefyd am ymestyn y model hwn i rolau allweddol eraill ym maes gofal cymdeithasol. **Disgwyliwn weld llwybrau gyrfa cliriach ar gyfer gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol a fydd yn caniatáu i ymarferwyr sydd wedi cyrraedd safon uchel barhau wrth eu gwaith a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.**

3.68 Rydym wedi dechrau’r gwaith o broffesiynoli ar gyfer rheolwyr cartrefi plant a rheolwyr cartrefi gofal hefyd. Ond **byddwn yn mynd ati i ymestyn ac ehangu’r dull hwn drwy gynnig hyfforddiant wedi'i reoleiddio, cofrestri sy'n seiliedig ar gymwysterau a chymwysterau ar ôl cofrestru. Byddwn yn cynnwys holl reolwyr y gwasanaeth gofal yn y system hon.**

3.69 Drwy hyn, byddwn yn sicrhau prosesau ymarfer a dyfarnu proffesiynol o fewn fframwaith a fydd yn rhoi sicrwydd i’r cyhoedd ac yn sicrhau llywodraethu arferion. Bydd hyn yn hollbwysig wrth godi safon gwasanaethau ac **rydym yn disgwyl i'r Cyngor Gofal, fel y corff rheoleiddio proffesiynol, arwain y gwaith datblygu hwn fel y bo gennym drefniadau cadarn i sicrhau’r proffesiynoldeb newydd hwn.**

3.70 Mae gwybodaeth gynhwysfawr a chadarn am y gweithlu nid yn unig yn allweddol wrth gynllunio'r gweithlu ond hefyd wrth ddatblygu polisi. Rhaid i gyflogwyr eu hunain gymryd cyfrifoldeb i sicrhau bod gwybodaeth dda am y gweithlu ar gael iddynt. Fodd bynnag, ar sail y trefniadau sydd gennym ar hyn o bryd, dim ond rhan o'r gweithlu y mae modd i ni ei deall yn iawn. **Byddwn felly yn sefydlu trefniadau, drwy'r system reoleiddio, i gasglu gwybodaeth orfodol am y gweithlu gofal cymdeithasol.**

3.71 Rydym am godi'r parch a roddir i waith cymdeithasol ymhlith y cyhoedd. Bydd hyn nid yn unig yn rhoi cydnabyddiaeth decach i'r gwaith da

mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol yn ei wneud ond hefyd yn ein helpu i recriwtio a chadw'r bobl ddisgleiriaf a’r bobl orau yn y sector. Ni chredwn, serch hynny, fod angen ymrwymo i greu sefydliad newydd yng Nghymru at y diben hwn ar hyn o bryd. **Gan hynny felly, nid ydym fel Llywodraeth yn bwriadu datblygu Coleg Cenedlaethol Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd**. Galwn, fodd bynnag, ar bawb i gefnogi ac annog meithrin diwylliant o gynrychiolaeth broffesiynol gref ar gyfer gwaith cymdeithasol ac i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y trefniadau priodol y dylai sefydliadau eu mabwysiadu i gefnogi'r uchelgais hwnnw. Rydym am i fwy o bobl wrando ar lais gweithwyr cymdeithasol.

## Diogelu a Hyrwyddo Lles Unigolion

3.72 Un o'n hawliau sylfaenol yw y dylem fod yn rhydd rhag cael ein hecsbloetio, ein cam-drin a'n hesgeuluso. Rydym yn disgwyl y bydd y berthynas â'r bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau yn seiliedig ar urddas a pharch.

3.73 Yn ystod y deng mlynedd diwethaf rydym wedi gweld newid mawr yn y ffordd y mae gwasanaethau diogelu yn cael eu darparu. Mae oedolion yn cael eu diogelu bellach mewn modd mwy cydlynol nag oedd yn digwydd ddeng mlynedd yn ôl ac rydym yn deall mwy am faes cam-drin oedolion hefyd. Mae'r trefniadau a'r arferion sydd yn eu lle i ddiogelu plant yn gadarnach o lawer nawr. Mae llawer o blant ac oedolion yn cael eu diogelu rhag niwed gan staff ymroddedig a medrus ar draws Cymru gyfan a hynny'n ddyddiol. Ni allwn laesu dwylo fodd bynnag. Rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori Amddiffyn Oedolion a Fforwm Diogelu Plant Cymru er mwyn adolygu'r trefniadau presennol. Cynhaliwyd hefyd arolygiadau cynhwysfawr o'r trefniadau diogelu.

3.74 Mae'r cyfrifoldeb am ddiogelu yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu ar draws nifer o bartneriaid statudol: y GIG, addysg a'r heddlu, yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol. Holwyd mewn adroddiadau arolygu diweddar i ba raddau y mae pawb yn cyflawni eu dyletswyddau'n llawn yn hyn o beth. Mae gan wasanaethau cymdeithasol rôl hanfodol i'w chwarae ym maes diogelu. Eu cyfrifoldeb hwy yw dwyn partneriaid ynghyd ond nid eu cyfrifoldeb hwy yn unig mohono.

3.75 Gan adeiladu ar yr hyn a wnaed hyd yma, credwn y dylai gwaith diogelu ac amddiffyn gael ei lywio'n gadarnach bellach drwy arweiniad cenedlaethol. Maes o law **byddwn yn sefydlu Bwrdd Diogelu Cenedlaethol ar gyfer Oedolion a Phlant â chadeirydd annibynnol, a hynny ar sail barhaol**. Bydd y Bwrdd yn cynnig arweiniad cenedlaethol i bob un o'r rhanddeiliaid, bydd yn datblygu ac yn hyrwyddo safonau uchel a bydd yn gyfrwng i ddysgu o brofiad. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser i'w sefydlu yn ffurfiol a **byddwn felly yn cadw'r trefniadau ar gyfer arweiniad cenedlaethol ar wahân tra bydd y Bwrdd yn cael ei sefydlu. Byddwn yn gofyn i'r Fforwm roi i ni gyngor cychwynnol ar gwmpas a chylch gwaith posibl Bwrdd o'r fath a chynnwys hyn yn ei adroddiad terfynol a ddisgwylir ddiwedd mis Gorffennaf 2011. Byddwn yn mynd ati i ystyried sut i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yng ngwaith y Bwrdd. Byddwn hefyd yn ymgynghori â'r Grŵp Cynghori Amddiffyn Oedolion.**

3.76 Yn sgil argymhellion y Grŵp Cynghori Amddiffyn Oedolion[15] **byddwn yn adolygu ac yn cyhoeddi canllawiau statudol wedi'u diweddaru yn lle *"Mewn Dwylo Diogel"*[16]. Byddwn yn cyflwyno fframwaith statudol cadarnach ar gyfer amddiffyn oedolion yng Nghymru. I ddechrau,**

[15] Adroddiad Bwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, Chwefrof 2011
[16] Mewn Dwylo Diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru, Gorffennaf 2000

**byddwn yn ymgynghori ynghylch ein cynlluniau i ddeddfu i sicrhau bod rôl gydlynu gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei rhoi ar sail statudol gadarnach ac i sicrhau bod asiantaethau a darparwyr gwasanaethau yn cydweithio wrth archwilio i gam-drin oedolion, gan gynnwys rhannu gwybodaeth.**

3.77 **Yn sgil adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar y gyfraith ar ofal cymdeithasol i oedolion, byddwn hefyd yn ystyried lle gellir gwneud newidiadau pellach i gryfhau trefniadau amddiffyn oedolion yng Nghymru, gan ddysgu o brofiad y system newydd yn yr Alban.**

3.78 Mae'r Fforwm Diogelu Plant wedi pennu ei flaenoriaethau. Rydym wedi nodi'n glir nad ydym yn credu bod y 22 o Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn gynaliadwy ac nad hwy yw’r cyrff priodol i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar weithwyr proffesiynol yn yr amryw asiantaethau. Rydym o’r un farn ynglŷn ag amddiffyn oedolion. **Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau ynghylch dyfodol y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn sgil argymhellion y Fforwm ac yng nghyd-destun unrhyw drefniadau newydd a wneir ar gyfer partneriaethau.**

3.79 Byddwn yn parhau i sicrhau bod y trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn bodloni'r anghenion presennol - er enghraifft yn ddiweddar fe wnaethom gyhoeddi newidiadau arloesol i'n ffordd o adolygu achosion difrifol. **Byddwn yn adolygu'r canllawiau statudol *Gweithio Gyda'n Gilydd*[17] yng ngoleuni adroddiad y Fforwm.**

3.80 Ym mis Mehefin 2010, comisiynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yr Athro Eileen Munro i gynnal adolygiad pellach o'r trefniadau amddiffyn plant yn Lloegr. Mae rhai agweddau ar y fframwaith cyfreithiol yn cael eu rhannu rhwng Cymru a Lloegr, yn arbennig ddyletswyddau asiantaethau penodedig nad ydynt wedi'u datganoli megis yr heddlu a'r gwasanaethau prawf. Byddwn yn parhau fodd bynnag i ddatblygu fframwaith unigryw Gymreig o fewn ein pwerau cyfreithiol. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw wersi y byddwn am eu dysgu yn sgil Munro, yng nghyd-destun yr egwyddorion a'r dulliau gweithredu rydym wedi'u mabwysiadu mewn perthynas â gwasanaethau plant yng Nghymru. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad i ddull o weithio sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n sicrhau bod lle canolog yn cael ei roi i lais plant a phobl ifanc wrth ddarparu gwasanaethau.

[17] Diogleu Plant: Gweithio Gyda’n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, Chwefror 2007

## Fframwaith Newydd i Gymru ar gyfer Gwella

3.81 Rydym eisoes wedi cydnabod bod gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wedi gwneud gwelliannau lu, a hynny ar sail Deddf Safonau Gofal 2000 – sefydlu Cyngor Gofal Cymru (CGC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn benodol. Roedd y datblygiadau hyn yn torri tir cwbl newydd. Mae gennym bellach linell sylfaen i fesur perfformiad, mwy o gysondeb, darpariaeth gryfach i warchod rhag cam-drin ac ecsbloetio, a mwy o gyfleoedd i dynnu sylw comisiynwyr a'r cyhoedd at wasanaethau israddol. Ond gan fod y system wedi tyfu dipyn wrth dipyn, mae'r diffyg eglurder sy'n bodoli yn awr yn ychwanegu'n ddiangen at lwyth gwaith darparwyr a rheoleiddwyr. Mae mwy o gymhlethdod hefyd oherwydd y gorgyffwrdd sydd wedi datblygu rhwng rheoleiddwyr a'r trefniadau comisiynu. Roedd model wedi'i seilio ar y safonau gofynnol yn iawn yn ei gyfnod, ond ein dymuniad nawr yw symud y tu hwnt i hynny. Mae angen i'r systemau sydd gennym heddiw fanteisio i'r eithaf ar y dechnoleg newydd.

**Y fframwaith ar gyfer gwella**

3.82 Y Diben Cenedlaethol newydd, gyda chymorth y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, fydd y sail i'n hymdrechion i wella.

3.83 Credwn fod gennym ddau ffactor allweddol i'n galluogi ni i wireddu ein huchelgais i ragori. Dyma nhw:

- Rheoleiddio gofal a gwasanaethau cymorth a rheoleiddio staff a
- Rhaglenni ar gyfer gwella

**Rheoleiddio gwasanaethau a staff**

3.84 Daeth adroddiad Syr William Utting ar ddiogelu plant[18] i'r casgliad mai'r ffordd orau o fynd ati i ddiogelu plant yw meithrin amgylchedd o ragoriaeth yn gyffredinol. Credwn fod rheoleiddio ac arolygu yn hollbwysig i sicrhau bod unigolion yn gallu cael hyd i wasanaethau sydd o safon dda ac sy'n ddiogel. Mae'n rhaid i ni gydnabod yn fwy eglur bod y prif gyfrifoldeb am sicrhau ansawdd, llais clir a rheolaeth yn nwylo defnyddwyr y gwasanaethau, a hefyd am diogelu ac amddiffyn ar ysgwyddau'r cyrff eu hunain, y gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n comisiynu'r gwasanaethau - nid ar ysgwyddau'r rheoleiddwyr a'r arolygwyr. Mae gan reoleiddio rôl bwysig i'w chwarae a disgwyliwn i reoleiddwyr gymryd camau pendant lle bo angen. Deallwn hefyd mai drwy ganolbwyntio ar y trefniadau ehangach y gellir sicrhau newidiadau a diogelwch yn y tymor hir. **Dyma'r amser i newid y pwyslais ym maes rheoleiddio ac arolygu o'r pwynt lle caiff gwasanaethau eu darparu i'r cyrff sy'n darparu'r gwasanaethau hynny ac i weithwyr proffesiynol penodol o fewn y gweithlu.** Bydd hyn yn ein galluogi ni i **leihau'r baich rheoleiddio ac i leihau faint o reoleiddio sy'n digwydd.**

---

[18] People Like Us: The Report of the Review of the Safeguards for Children Living Away From Home, 1997

3.85 Er mwyn cyflawni hyn:

- Byddwn yn disgwyl i'r rheoleiddio gael ei arwain gan yr unigolyn;
- Byddwn yn glir ynghylch y safonau sy'n ddisgwyliedig o ran y gwasanaeth a'r prosesau llywodraethu;
- Byddwn yn atgyfnerthu'r disgwyliad y dylai sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth fod yn bennaf gyfrifol am gyfarwyddo, hyfforddi a chefnogi staff; a
- Byddwn yn sicrhau tryloywder fel y bydd gwybodaeth am wasanaethau a gweithwyr proffesiynol ar gael yn hawdd ac y bydd defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn gallu asesu'r hyn mae'n ei ddweud wrthynt.

3.86 Rydym wedi ymrwymo yr eir ati’n annibynnol i graffu ar wasanaethau, bod holi defnyddwyr gwasanaethau am eu profiad yn rhan o'r broses graffu a bod canlyniadau'r gwaith craffu yn cael eu cyhoeddi. Credwn fod barn broffesiynol wrthrychol y Prif Arolygydd, heb ei lyffetheirio gan ystyriaethau gwleidyddol neu bolisi, yn ganolog i wasanaethau cymdeithasol effeithiol. Mae AGGCC yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er mwyn sicrhau gwrthrychedd proffesiynol y Prif Arolygydd, byddwn yn ymgynghori ar sut y gall unigolion a phobl allweddol eraill sydd â diddordeb yn y maes roi cyngor a fydd o gymorth i waith AGGCC.

3.87 Bydd prif ffocws y rheoleiddio ar y gwasanaethau yn symud o'r model presennol, sy'n cael ei arwain gan arolygiadau, i fodel sy'n datblygu'n llawn rôl yr awdurdod cofrestru i Gymru. **Yn ein model newydd bydd y pwyslais ar gofrestru cyrff yn ddarparwyr gwasanaethau ac yn gyflogwyr gweithwyr cymdeithasol cofrestredig a gweithwyr proffesiynol a staff gofal cymdeithasol – hynny yw, trwydded i weithio yn ein sector. Byddwn yn disgwyl i wasanaethau ailgofrestru yn unol â meini prawf priodol. Lle gwelir nad yw’r safonau ar gyfer cofrestru yn cael eu cynnal, bydd y drwydded yn cael ei dirymu.**

3.88 Rydym am i’r comisiynwyr a'r cynllunwyr, y busnesau a fydd yn darparu’r gofal yn ogystal â'r cyhoedd – ystyried bod bri i’r ‘drwydded i weithredu’ a’i bod yn arwydd o ansawdd a sicrwydd. Rydym am i ystyriaeth gael ei rhoi i’w gwerth o safbwynt y busnes a ddaw i'r darparwyr o ganlyniad i'r statws a fydd ynghlwm wrth y drwydded.

3.89 Bydd y ffocws wrth gofrestru yn symud o'r gwasanaeth i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth a hefyd yn symud o lefel lleoliadau penodol i lefel gorfforaethol. Nodir yn glir mai darparwr y gwasanaeth a fydd yn gyfrifol am fod yn atebol am berfformiad a gwella - a fydd yn cael eu mesur yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd a’r dangosyddion. Darparwr y gwasanaeth fydd hefyd yn gyfrifol am lunio adroddiadau cyhoeddus ynghylch y materion hyn. Y gofrestr fydd y sail ar gyfer hyn oll. Rydym am iddi fod yn ddynamig ac yn ystyrlon ac rydyn ni am iddi ddarparu gwybodaeth dryloyw, gyfredol, hawdd ei chael am ddarparwyr a staff gofal cymdeithasol. Drwy hyn bydd rôl y comisiynwyr yn fwy eglur: y comisiynwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau

bod y gwasanaethau y maent yn eu prynu yn bodloni eu disgwyliadau, ynghyd â'r gofynion o ran y gyfraith a pholïsiau.

3.90 Mae gan arolygwyr sy'n edrych ar brofiad uniongyrchol pobl o dderbyn gwasanaethau rôl i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaeth sy'n ddiogel ac o safon, a bydd arolygu arferion mewn lleoliadau penodol yn parhau'n rhan allweddol o'r system. Ond bydd rhaid iddynt fod yn gymesur, bydd rhaid iddynt gynnwys elfen o samplu a bydd rhaid iddynt hefyd ddarparu tystiolaeth ar gyfer asesiadau o'r sefydliad cyfan. Bydd effeithiolrwydd llywodraethu corfforaethol a goruchwyliaeth rheolwyr wrth sicrhau ansawdd a diogelwch yn brawf allweddol, yn ei dro, i'r rheoleiddwyr ei asesu. Mae'n hanfodol bod y rheoleiddiwr yn sicrhau y gall unigolion weld yn glir safon yr hyn mae'r gwasanaeth yn ei gynnig.

3.91 **Byddwn yn adolygu'r fframwaith rheoleiddiol i wneud yn siŵr ei fod yn canolbwyntio digon ar gyfrifoldebau corfforaethol darparwyr a chomisiynwyr. Byddwn hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod y Prif Arolygydd yn moderneiddio ymhellach y broses o gofrestru ac arolygu - gan ganolbwyntio'n arbennig ar wneud y broses yn dryloyw er mwyn cyflwyno'r newidiadau.**

3.92 Bydd angen i'r gwaith o reoleiddio'r gweithlu ddilyn yr un egwyddorion. Ni fydd modd cyflawni hynny ar sail nod y polisi presennol o gofrestru'r holl weithlu gofal cymdeithasol oherwydd byddai'n rhaid trosglwyddo'r ffocws a'r cyfrifoldeb i'r rheoleiddiwr. Dylai'r trefniadau fetio a gwahardd ddelio â materion yn ymwneud â diogelwch, a darparwr y gwasanaeth ddylai gael ei ystyried yn bennaf fel yr un i ddelio â materion yn ymwneud ag ymddygiad. Dyma sail ein hymrwymiad i gofrestru sefydliadau fel darparwyr gwasanaethau gofal ac fel cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol. Rydym am bennu safonau ynghylch rôl y cyflogwyr a sicrhau bod y safonau hynny yn cael eu cynnal. Rydym yn disgwyl i'r safonau hynny gynnwys gofynion o ran llywodraethu proffesiynol a goruchwylio arferion yn ogystal â hyfforddiant a datblygu parhaus.

3.93 **Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gofrestru grwpiau o weithwyr heblaw gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol; a byddwn yn adolygu'r trefniadau presennol i reoleiddio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod y gwaith cofrestru yn canolbwyntio ar rôl rheolwyr o arwain a gwella.**

3.94 **Byddwn yn cyfyngu ein sylw i systemau cofrestru gorfodol. Caiff cofrestri gwirfoddol eu cau am nad ydynt yn cynnig yr eglurder a'r symlrwydd sydd eu hangen ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.**

3.95 Mae'r cynnydd yn nifer y cyrff sy’n ariannu eu hunain a threfniadau eraill, er enghraifft taliadau uniongyrchol, wedi arwain at fwy a mwy o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r grŵp gorchwyl ar y gweithlu wedi ystyried hyn a **byddwn yn cychwyn trafodaeth gyhoeddus ar yr egwyddorion a ddylai fod yn berthnasol wrth ddeall terfynau cywir y ddyletswydd i ofalu sy'n eiddo i'r wladwriaeth,**

**cyfrifoldebau defnyddwyr gwasanaethau fel cyflogwyr, y cymorth a roddir i ddefnyddwyr gwasanaethau, a'r goblygiadau ar gyfer diogelu.**

**Gwneud ansawdd yn fwy tryloyw**

3.96 Gobeithiwn y bydd gwybodaeth am ddarparwyr - yn ddarparwyr ac yn gyflogwyr fel ei gilydd - yn cael ei chysylltu'n amlwg â gwybodaeth am y gweithwyr proffesiynol cofrestredig maent yn eu cyflogi. Disgwyliwn y bydd y datblygiad hwn yn gwella'n sylweddol y dystiolaeth sydd ar gael am y sector a'i weithwyr proffesiynol cofrestredig ac yn galluogi rheoleiddwyr i ddelio'n fwy effeithiol ag arferion sy'n disgyn yn is na lefel sy'n dderbyniol. Disgwyliwn hefyd y bydd hyn yn gwella ansawdd y cyngor proffesiynol sydd ar gael i gomisiynwyr a'r llywodraeth am gyflwr y sector. Bydd defnyddio technoleg yn allweddol i gyflawni'r amcanion hyn ond, yn sail i hyn oll, rhaid i'r cyrff sy'n gyfrifol ar hyn o bryd – y Cyngor Gofal ac AGGCC – fynd ati i gydweithio o ddifri â'i gilydd.

3.97 Nid ydym yn frwd iawn o blaid newid strwythurol, ac ar hyn o bryd nid ydym am weld adnoddau yn cael eu defnyddio at y diben hwn; ond rhaid i ni chwilio am arbedion yn ein ffordd o gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio.

3.98 **Rydym yn disgwyl i AGGCC a'r Cyngor Gofal gyflwyno cynnig ar y cyd i ddatblygu a gweithredu'r newidiadau allweddol hyn ac i sicrhau arbedion o ran prosesau busnes a gweinyddiaeth erbyn mis Rhagfyr 2011; hyn oll i'w roi ar waith o fis Gorffennaf 2012 ymlaen. Os oes angen newid y pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol, awn ati i sicrhau y caiff hynny ei wneud.**

**Dull newydd strategol o gydweithio er mwyn gwella**

3.99 Mae nifer o gamau wedi'u cymryd i gefnogi gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi digwydd ar hap braidd wrth i drefniadau penodol gael eu datblygu mewn ymateb i agweddau arbennig ar wasanaethau cymdeithasol. Rydym yn ariannu'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) i gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i wella; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig arweinyddiaeth broffesiynol i gyfarwyddwyr; y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth i ddarparu'r dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol; y Cyngor Gofal i annog gwelliannau yn y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol; ac AGGCC i annog gwelliannau ym maes gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae gennym ffrydiau ariannu hefyd yn y llywodraeth sydd wedi'u targedu ar welliannau megis Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

3.100 Credwn fod ein hadnoddau presennol ar gyfer gwella yn rhy wasgaredig. Trwy gydweithio'n well fe geir y cymorth sydd ei angen i yrru'r newidiadau yn eu blaenau. Trwy hynny hefyd y caiff y defnydd gorau ei wneud o adnoddau. Gellir nodi nifer o enghreifftiau i ddangos sut y gall gweithio gyda'n gilydd dalu ar ei ganfed wrth yrru yn ei flaen y newid rydyn ni am ei weld. Er enghraifft, gweithiodd AGGC, AGGCC a'r llywodraeth gyda'i gilydd i

greu fframwaith arweinyddiaeth ac atebolrwydd i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn bellach wedi'i ymgorffori yn y fframwaith arolygu ac adolygu ac, yn ehangach, yn fframwaith cyffredinol llywodraeth leol. Dylem anelu bob amser at chwilio am gyfleoedd i gydweithio â chyrff eraill er mwyn sicrhau gwelliannau sylweddol o'r math hwn. Disgwyliwn i'r gwelliant a welir fod yn broses weithredol: disgwyliwn iddo herio yn ogystal â rhoi cefnogaeth.

3.101 **Awn ati i greu ffordd newydd o gydweithio ar gyfer gwella, yn seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn galluogi pawb a fydd yn rhan o'r broses o wella i ddarparu fframwaith strategol a fydd yn annog a, lle bo angen, yn ysgogi gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.**

3.102 Rydyn ni am i'r fframwaith strategol:

- Gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu hatebolrwydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol;
- Cynorthwyo darparwyr gwasanaethau i ragori;
- Cynorthwyo a datblygu gweithwyr proffesiynol yn eu harferion a;
- Galluogi'r gweithlu ehangach i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

3.103 **Byddwn yn dwyn ynghyd bawb sydd â diddordeb yn yr agenda hon, gan gynnwys CAFCASS a phawb sy'n ymwneud â gwaith ymchwil yn y maes, i rannu a dadansoddi gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus a gofal cymdeithasol a'r gweithlu er mwyn datblygu cynllun strategol tair blynedd ar gyfer gwella yn seiliedig ar yr hyn a gyflawnwyd gennym yn genedlaethol. Rhaid iddo gael ei seilio ar farn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ynghyd â'u teuluoedd a'u cynrychiolwyr.**

3.104 Rydym yn cydnabod bod gan y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn statws cyfreithiol gwahanol, ond credwn fod ganddynt hwythau hefyd dystiolaeth a allai gyfrannu at y dull hwn a disgwyliwn i'r cynllun strategol ystyried y dystiolaeth honno.

3.105 **Caiff y cynllun strategol tair blynedd ei gyflwyno i'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol** er mwyn iddo eu hystyried a rhoi sylwadau arnynt cyn i'r Gweinidog gytuno arnynt i'w cymeradwyo a'u hariannu. Bydd **cynllun busnes blynyddol yn cael ei lunio yn sail i'r broses** a nodir ynddo'r blaenoriaethau, y ffrydiau gwaith arfaethedig, yr allbynnau a'r canlyniadau y bwriedir iddynt gael eu cyflawni, a'r prif gyrff arweiniol at ddibenion ariannu a darparu. Bydd y cyllid sydd ar gael yn awr ar gyfer gwella yn cael ei ddwyn ynghyd yn un rhaglen a chaiff ei ryddhau i'r prif gyrff arweiniol ar sail y cynllun.

3.106 **Bydd y cynllun hefyd yn ystyried yr angen dybryd i sicrhau nad ydym yn dargyfeirio cyllid o welliannau ar y rheng flaen i ddyblygu swyddogaethau 'cefn swyddfa' yn y cyrff eu hunain - felly bydd y cynllun hefyd yn nodi sut y gwneir arbedion yn rhan o brosesau sylfaenol busnes a gweinyddiaeth.**

3.107 Caiff cyrff unigol eu dwyn i gyfrif ynghylch y modd y darperir y rhaglenni a ariennir. Bydd yn rhaid i'r cyrff hyn roi cyfrif hefyd o'u perfformiad drwy eu trefniadau llywodraethu eu hunain.

3.108 **Rydyn ni am i'r trefniadau newydd hyn fod yn eu lle ar gyfer 2012-13 a disgwyliwn weld y cynigion y cytunwyd arnynt ynghylch sut y bydd y trefniadau newydd hyn yn gweithio ynghyd â chynllun strategol amlinellol erbyn mis Ionawr 2012.** Rydym yn cydnabod y bydd yna rai cymhlethdodau i'w datrys, gan gynnwys sut y bydd arian yn cael ei symud o'r cronfeydd unigol presennol i gronfa newydd sef Cronfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Cymru. Am y rheswm hwn **byddwn yn mynd ati'n raddol dros gyfnod o dair blynedd sef 2012-13, 2013-14 a 2014-15. Yn y flwyddyn 2012-13, byddwn yn nodi cyfanswm y 'gronfa' honno am y blynyddoedd i ddod.**